Medi 2023

Trosolwg o'r Prosiect

Penodwyd Griffiths gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2022 i gyflawni'r cynllun hwn. Mae'r gwaith yn cynnwys cryfhau'r amddiffynfeydd môr a gwneud gwelliannau mawr i'r promenâd. Dechreuodd y gwaith ar y prosiect ym mis Mai 2022, ac mae bron wedi'i gwblhau.

Cwblhawyd y gwaith o ddychwelyd tywod i'r traeth ar wahân gan y contractwr arbenigol, Boskalis Westminster ddiwedd haf 2022.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun cyffredinol, ewch i dudalen we Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:
Prosiectau Amddiffyn yr Arfordir - Cyngor Bwrdeistref Sirol
www.Conwy.gov.uk/amddiffynyrarfordir

Glannau Bae Colwyn Cam 2b (Llandrillo-yn-rhos)

Cynnydd y Prosiect/Gwaith sydd yn yr arfaeth

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ers ein diweddariad diwethaf yng Ngwanwyn 2023. Mae'r gwaith ar y traeth ei hun bron wedi'i gwblhau; mae arllwysfeydd dŵr wyneb Dŵr Cymru wedi'u cwblhau gan adael y gwaith i osod pyst marcio morol. Ar y promenâd ei hun, mae'r 1,870 metr (ychydig dros filltir) o ddwythellau ceblau 4-ffordd lluosog a sengl 100mm wedi'u gosod, yn ogystal â'r holl seilwaith ar gyfer y gwefrwyr cerbydau trydan a'r colofnau goleuo newydd.



Mae gwaith paratoi ar gyfer gwelliannau i ardaloedd priffyrdd a defnydd a rennir wedi'i gwblhau ynghyd â gosod cyrbau priffyrdd ac ymylon llwybrau troed. Mae'r gwaith agregau agored/concrid lliw ac elfennau draenio priffyrdd newydd wedi'i gwblhau. Yn ogystal, mae'r gwaith i osod blychau plannu a chelfi stryd ar y promenâd yn mynd rhagddo'n dda. Mae gosod yr offer ymarfer corff ar hyd Promenâd Cayley hefyd wedi'i gwblhau.



Mae 80% o'r gwaith i osod 2,000m^2+ o bafinau bloc bellach wedi'i gwblhau, gyda'r mannau chwarae a'r eitemau dodrefn stryd terfynol ynghyd â'r wyneb asffalt (tarmac) terfynol i'w cwblhau yn ystod mis Hydref.

Gwaith ar Bromenâd Cayley

Mae'r gwaith o osod mesurau arafu traffig (twmpathau cyflymder) a mannau croesi gwell wedi'i gwblhau. Mae gwaith arwynebu hefyd yn mynd rhagddo ar hyd promenâd y Gorllewin. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau dros yr wythnosau nesaf ac yna byddwn yn gwneud gwaith paentio llinellau ar arwynebau'r priffyrdd, gan gynnwys ar hyd Promenâd Cayley (llinellau gwyn, marciau twmpathau cyflymder a llinellau melyn dwbl).



Buddion Cymunedol

Rydym bellach wedi cwblhau gwaith atgyweirio ym maes parcio Bryn Cadno, Canolfan Gymunedol Colwyn Uchaf. Dros y blynyddoedd mae'r maes parcio wedi cael ei ddifrodi gyda HGVs yn defnyddio'r cyfleuster i barcio dros nos. Llwyddodd Pwyllgor y Ganolfan i sicrhau grant i brynu a gosod rhwystr cyfyngu uchder. Gofynnwyd i ni a allem helpu i atgyweirio'r maes parcio, ac rydym yn falch iawn ein bod wedi gallu gwneud y gwaith atgyweirio i'r gymuned leol sy'n defnyddio'r maes parcio.

Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi ddysgu am bob un o'n prosiectau ledled Cymru a de-orllewin Lloegr drwy ymweld â'n gwefan? Cliciwch ar: https://community.griffiths.co.uk/cy/home/ i ddysgu mwy!



Gallwch gysylltu â Rich Foxhall, ein Swyddog Cyswllt y Cyhoedd ar y prosiect hwn, drwy e-bostio: oldcolwyncoastaldefence@alungriffiths.co.uk neu drwy ffonio 0330 041 2185*

*Codir cyfraddau galwadau cenedlaethol am alwadau i'r rhif hwn ac maent wedi'u cynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau tir a ffonau symudol. Mae cyfleuster neges llais ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol.